------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Mehefin 2020

Amser y cyfarfod: 11.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6331

## 278

Dechreuodd yr eitem am 10.58

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

## Datganiad y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 10.59

Dywedodd y Llywydd wrth y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, bod y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 1 Mehefin 2020 a dywedodd hefyd mai dyma hefyd Ddeddf gyntaf Senedd Cymru.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 10.59

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 11.00

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 12.08

<u>Gofyn i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip</u>

**Neil McEvoy (Canol De Cymru):** Yng ngoleuni'r digwyddiadau yn yr Unol Daleithiau, ar draws y byd a phrotestiadau yng Nghymru yn dilyn marwolaeth George Floyd, a wnaiff Llywodraeth Cymru amlinellu ei pholisïau ar gydlyniant cymunedol?

**Am 12.20, cafodd y cyfarfod ei atal am 60 munud**

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.20

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddarpariaeth Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.34

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Digartrefedd

Dechreuodd yr eitem am 15.45

## 7 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Dechreuodd yr eitem am 16.37

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7327** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mai 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 11 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ymchwiliad annibynnol i Covid-19

Dechreuodd yr eitem am 16.45

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7328** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw am ymchwiliad annibynnol wedi'i arwain gan farnwr a benodir gan y Senedd, i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r pandemig Covid-19, i'w gychwyn ar ddyddiad priodol, pan fydd y pandemig o dan reolaeth, ac i'w gwblhau cyn etholiad nesaf Senedd Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 39 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu 'wedi'i arwain gan farnwr a benodir gan y Senedd'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 26 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu “ac i'w gwblhau cyn etholiad nesaf Senedd Cymru”.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 4 | 22 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol**

**Gwelliant 4 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gychwyn ymchwiliad annibynnol yn cydredeg, wedi'i arwain gan farnwr, i'r modd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r pandemig Covid-19.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 35 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y’i diwygiwyd:**

**NDM7328** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw am ymchwiliad annibynnol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r pandemig Covid-19, i'w gychwyn ar ddyddiad priodol, pan fydd y pandemig o dan reolaeth.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 5 | 11 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.51

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhaliwyd pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Enwebodd pob grŵp gwleidyddol un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp. Yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, bydd yr enwebai yn cario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp hwnnw ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth. Roedd Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp neu grwpiad yn pleidleisio drostynt eu hunain.**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.00

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 10 Mehefin 2020**